CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cynhaliodd y Cyngor gyfarfod rhithwir yn union ar ôl y Cyfarfod Blynyddol ar 7 Medi 2020 yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd)(Cymru 2020.*

Presennol: Cadeirydd, Cyng K Symmons. Cyngr S Kings, A Edwards, H Davies, I Davies

CS Clive Davies

Clerc

Aelodau o'r Cyhoedd: 0

---

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Mrs N Redmond a'r Cyng Mrs L Holder.

**O2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**
Dim.

**O3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol.
Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno.

**O4. Cadarnhau Cofnodion 3.08.20**
Roedd gwall wedi ei wneud wrth rifo'r cofnodion, a chytunwyd i ail-rifo'r tudalennau yn eu trefn o 368 i 371.
Wedyn cynigiodd y Cyng I Davies y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng Mrs A Edwards a chytunwyd yn unfrydol.

**O5. Ceisiadau Cynllunio**
A200633 Codi sied storio, Robert Davies Motors Cyf, Llechryd
Roedd yr Adran Gynllunio wedi dweud bod y cais yn annilys a chafodd ei dynnu oddi ar yr agenda.

A200574, Y Garth, Llechryd, SA43 2NX, estyniad llawr cyntaf arfaethedig
Cytunodd y Cyngor Cymdeithas i gefnogi'r cais.

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

**O6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**
Dywedodd CS Clive Davies fod y bont nawr ar agor ond ei bod eisoes wedi ei rhwystro oherwydd y glaw yn ddiweddar. Roedd wedi cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru a CSC ynglŷn â'i chlirio cyn i lefel yr afon godi eto.

Dywedodd fod yr agenda Teithio Llesol yn cael ei gwthio ymlaen eto ac roedd wedi gofyn am i lwybrau troed ar gyfer y pentref a chyswllt o'r pentref i Aberteifi gael eu cynnwys mewn unrhyw drafodaethau. Gobeithiai y gallai cyswllt cerdded/beicio ar hyd Dyffryn Teifi fod yn bosibl o gofio'r pwyslais ar ffitrwydd ar ôl yr afiechyd COVID.

Soniodd am y pryder fod coed wedi disgyn ar hyd y llwybr troed ac i mewn i'r afon ar y llwybr troed o Lechryd i Gilgerran. Byddai'n rhoi gwybod i'r awdurdod priodol gan ddweud bod estyniad i'r daith gerdded o Gilgerran i Hendy-gwyn wedi ei awgrymu a bod cynnal a chadw'n rheolaidd yn hanfodol ar y llwybrau presennol.

Roedd yn pryderu am y diffyg casglu gwastraff gwyrdd gan CSC, ac roedd wedi tynnu sylw at yr anawsterau i drigolion sy'n methu â gyrru, wrth waredu gwastraff. Nodwyd bod y sachau a ddefnyddir i waredu gwastraff gwyrdd yn gorfod cael eu prynu oddi CSC.

*Llofnod y Cadeirydd: ............................................................. Dyddiedig: 05.10.2020*

**O7. Cyllid a Gweinyddu**

**7.1 Taliadau Misol**

*7.1.1*

*Cymeradwyo cyfrifon sy'n daladwy*

| | Talai | Am | banc | |
|---|---|---|---|---|
| 30.08.27.09.20 | LAS | DU | 42.00 | |
| | HARC | | 97.60 | |
| | S E Davies | Cyflog | 389.79 | Gan gyn. 10 awr goramser |
| | S E Davies | Swyddfa yn y cartref 25/post 41.25/35.00 trwsio gliniadur | 101.25 | Post, Dosbarth 1af at y Cadeirydd a 61 x ail ddosbarth llythyron am faw cŵn |
| | Cardibanners | Arwyddion Covid yn y lle chwarae | 150.00 | |
| | E Rees | Sbwriel | 30.00 | |
| | Llechryd Cym. Caeau Chwarae | Atal y cyfrif rhag cael ei rwystro | 20.00 | |

Nodwyd, os bydd treuliau cyfreithiol yn cael eu tynnu gan LPFA (cofrestru tir neu gyngor cyfreithiol), ei bod yn rhaid eu talu o'r cyfrif LPFA, nid gan y cyngor. Ni ellir hawlio unrhyw TAW yn ôl.

Nodwyd bod y Cyng K Symmons wedi parhau'n Gadeirydd o fis Mai am 4 mis eto oherwydd y cyfnod clo. Cytunwyd i dalu 4 mis, pro rata, o lwfans y Cadeirydd i'r Cyng K Symmons.
GWEITHREDU: Trefnu talu am gyfarfod mis Hydref GAN: Y Clerc

Nodwyd rhybudd Mr E Rees am y contract clirio sbwriel, a hefyd ei ddiolch i'r Cyngor am y gwaith contract a'i ddymuniadau da i'r Cyngor yn y dyfodol.
GWEITHREDU: Llythyr i ddiolch GAN: Y Clerc

***7.2 Bancio ar-lein - diweddariad***

*Dywedwyd bod y Clerc wedi cael y manylion mewngofnodi ar-lein ac y byddai'n rhoi'r cyfrif ar waith ac yn trefnu awdurdodi taliadau gan ddau berson a oedd wedi llofnodi.*

***7.3 Cofrestrfa Tir***

Cae chwarae a man chwarae / parc ceir
Nodwyd bod mesuriadau a oedd wedi eu gwneud yn y cae chwarae wedi dangos bod darn o dir neb ym mhen y man chwarae. Ar y sail hon, nid cyfrifoldeb y Cyngor Cymdeithas oedd ymateb i gais gan un o'r trigolion am i'r coed gan eu tocio. Byddid yn cyfeirio'r person hwnnw at CSC. Atgoffwyd pawb bod CSC wedi gwneud gwaith ar y coed ryw 8 mlynedd yn ôl.

Roedd mesuriadau pellach yn dangos bod ffin y cae chwarae yn rhedeg dan y pystion cynnal yng nghefn y Neuadd. Awgrymwyd y dylid addasu'r ffin drwy gytundeb y ddwy ochr (a chyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau) i redeg ar hyd ymyl y darn concrid yng nghefn y neuadd. Byddai hynny'n golygu trosglwyddo ychydig o'r tir i'r neuadd ac ychydig o'r tir (y rhannau porfa o boptu'r darn concrid) yn cael ei drosglwyddo i Ymddiriedolwyr y Cae.

Awgrymwyd hefyd y dylai ffin y parc ceir ddilyn y pileri cynnal y to yn nhu blaen y neuadd. Byddai mynediad i gerddwyr ar hyd y llwybr ar hyd tu blaen y toiledau, a oedd yn cael eu gwahanu oddi wrth y parc ceir gan y waliau. Byddai angen gwneud y llechi ar ddiwedd y llwybr yn is i greu mynediad i'r anabl. Byddid yn gofyn i'r Neuadd gynnal a chadw mynediad i gerddwyr ar draws ei ffin flaen i'r tir sy'n eiddo i Ymddiriedolwyr y Cae.

Nid oedd gan y Comisiwn Elusennau ddim cofnod o drosglwyddo tir y parc ceir a'r bloc toiledau i'r Cyngor, a byddai'n rhaid delio â hynny. Nodwyd llythyr y cyfreithiwr yn rhoi costau'r prosiect am y gwaith.

Cytunwyd y dylai'r Cyngor gysylltu â Phwyllgor y Neuadd i drafod y ffiniau arfaethedig. Bwriedid i unrhyw drafodaethau fod yn gyfeillgar ac yn unol â chyngor cyfreithiol cyn gwneud unrhyw gytundebau.
GWEITHREDU: Ysgrifennu at Bwyllgor y Neuadd GAN: Y Clerc

***7.4 Cymeradwyo cais y Clerc am wyliau***
Cytunwyd i gais y Clerc am wyliau.

***7.5*** *Nodwyd gwybodaeth oddi wrth Un Llais Cymru am gyfarfodydd wyneb yn wyneb.*

**O8. Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
***8.1 Croes-y-Llan – cytuno ar ffordd ymlaen***
Roedd y Clerc wedi cael ymateb gan CSC ynglŷn â phryder y Cyngor fod lefel y traffig trwm oherwydd y gwaith gwastraff llaeth wedi ei ystyried yn 'normal' am ardal amaethyddol. Nodwyd pryderon trigolion am y cyflymdra eto, a chytunwyd i fynd at dîm yr Heddlu Cymunedol i weld beth ellid ei wneud i weld beth yw'r cyflymdra gwirioneddol. Dywedwyd bod y niwed i'r ffordd oherwydd y tanceri wedi ei drwsio.

***8.2 Llwybrau troed / Ffordd I Aberteifi***
Cytunwyd y byddai unrhyw lwybr oddi ar y ffordd neu lwybr mwy diogel rhwng y pentrefi ac Aberteifi yn cael ei groesawu.

Cytunwyd i sefydlu gweithgor, sef y Cyngr S Kings, Mrs A Edwards a Mrs N Redmond, i ymchwilio i bosibilrwydd cynhyrchu canllaw i lwybrau troed lleol. Byddai'r gweithgor yn cyflwyno'i gasgliadau i'r Cyngor maes o law..

***8.3 Pont Llechryd***
Deliwyd â hyn dan eitem 6.

***8.4 Cais am Gymorth gyda Chwyn gan un o'r Trigolion***
Roedd mater llifogydd ar ymyl y ffordd wedi ei gyflwyno i CSC gan un o'r trigolion lleol, ond nid oedd wedi cael dim ymateb er iddo gysylltu â CSC droeon. Cytunodd y CS Clive Davies i holi ynglŷn â'r gŵyn.

**O9. Amwynderau**
***9.1 Ailagor y Bloc Toiledau / Patrol Sbwriel – cytuno ar ffordd ymlaen***
Roedd y Clerc wedi cysylltu â thri chwmni glanhau lleol ynglŷn â glanhau'r bloc toiledau etc ond heb gael dim ymateb.
Roedd CSC wedi dweud eu bod yn fodlon ystyried cynnwys y bloc toiledau yn eu contract glanhau (gan godi tâl) pan fydd llai o bwysau arnynt oherwydd y sefyllfa COVID.

Cytunwyd i geisio dod o hyd i wirfoddolwr yn lleol i ofalu am godi sbwriel a gwacau biniau nes gellid cytuno ar y contract, ac y byddai'r Clerc yn cysylltu â chwmnïau glanhau eraill ynglŷn â'r contract llawn..
GWEITHREDU: Symud ymlaen GAN: Y Clerc

***9.2 Man / Cae Chwarae***
9.2.1 Diheintydd – cytunwyd na fyddai'r Cyngor yn darparu diheintydd ar gyfer y man chwarae.

9.2.2 Ffrâm dringo newydd– ystyried cynlluniau.
Roedd y Clerc wedi anfon dolenni at rai cwmnïau mannau chwarae, ond pwysleisiodd fod yna rai eraill. Gwahoddwyd y Cynghorwyr i anfon dolenni ar gyfer cyfarpar at y Clerc er mwyn gallu trafod y mater cyn costio.

9.2.4 Darn concrid – angen manylion.
Cytunwyd y dylid rhoi manylion sylfaenol at ei gilydd gan y Clerc gyda chymorth y Cyng H Davies a'u hanfon allan gan ofyn am ddyfynbris.
GWEITHREDU: Manylion i gael eu drafftio GAN: Y Cyng H Davies a'r Clerc

*9.2.5* Baw cŵn
Roedd 61 o lythyron wedi eu hanfon allan at y trigolion. Nodwyd mai un warden cŵn yn unig sydd yng Ngheredigion. Cytunwyd, ar wahân i bawb gadw llygad, nad oedd llawer y gallai'r Cyngor fel Ymddiriedolwr y Cae ei wneud.

**O10. Digwyddiadau**
***10.1 Gwasanaeth Sul y Cofio***
Cytunwyd i ofyn i'r Parch A Kent a fyddai'r Eglwys yn cynnal gwasanaeth ar Sul y Cofio a'r Cynghr yn ei gefnogi. Ni allai'r Cyngor ei hun fod yn gyfrifol am stiwardio'r niferoedd a'r pellter cymdeithasol yn ei wasanaeth ei hun. Byddai'r Cadeirydd yn gosod torch o flodau yn yr Hen Eglwys.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r Parch. A Kent ac archebu torch o flodau GAN: Y Clerc

**O11. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan bennawd arall)**
Deliwyd â hyn dan benawdau'r agenda.

**O12. Materion Personol - Cyfnewid Gwybodaeth**
Nodwyd bod y clawdd gyferbyn â'r Carpenters Arms wedi gordyfu a byddai CSC yn cael gwybod am hyn.

GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

**O13. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 5.10.2020**

Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 21.22 pm

*Llofnod y Cadeirydd: .............................................................. Dyddiedig: 05.10.2020*